Deddfwriaeth bwyd anifeiliaid

Mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar fwyd anifeiliaid yn berthnasol i ystod eang o fusnesau a gweithgarwch bwyd anifeiliaid. Mae'r dudalen hon yn cynnwys canllawiau pellach ar brif reoliadau'r UE, prif gyfarwyddebau'r UE a deddfwriaeth genedlaethol sy'n effeithio ar fusnesau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid.

Mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn berthnasol o'r broses gynhyrchu cynradd hyd at roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a bwydo anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys prif reoliadau, cyfarwyddebau a chodau ymarfer y diwydiant yr UE sydd angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt.

Prif reoliadau'r UE

Mae'r ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid gyflawn i'w gweld ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd.

Ceir crynodebau ar gyfer y rheoliadau canlynol:

- 178/2002 ar egwyddorion cyfaith bwyd a bwyd anifeiliaid
- 183/2005 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid
- 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio
- 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid
- 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig
- 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir er mwyn sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid ei ddilysu
- 152/2009 sy'n gosod dulliau o samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol

Rheoliad 178/2002 ar egwyddorion cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid

Mae Rheoliad 178/2002 yn diffinio bod 'cyfraith bwyd' yn cynnwys cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd. Mae'n diffinio 'busnes bwyd anifeiliaid' fel unrhyw fusnes sy'n cyflawni unrhyw fath o gynhyrchu, gweithgynhyrchu, prosesu, storio, cludo, neu ddosbarthu bwyd anifeiliaid, gan gynnwys cynhyrchu, prosesu neu storio bwyd anifeiliaid.

Mae Erthyglau 15-18 a 20-21 yn nodi gofynion diogelwch bwyd, y gallu i olrhain, a chyfrifoldebau gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid.

Rheoliad 183/2005 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid

Mae Rheoliad 183/2005 yn ei gwneud yn ofynnol bod y mwyafrif o fusnesau sy'n rhan o ddefnyddio, gweithgynhyrchu neu farchnata bwyd anifeiliaid yn cael eu cymeradwyo neu eu cofrestru â'u hawdurdod cymwys.

Mae'n gosod safonau mewn perthynas â chludo a storio bwyd anifeiliaid, cynnal a chadw offer, hyfforddi staff, a chadw cofnodion.

Mae busnesau bwyd anifeiliaid yn cynnwys y canlynol:

- mewnforwyr a masnachwyr deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid wedi'i

weithgynhyrchu (gan gynnwys masnachwyr sy'n prynu'n uniongyrchol gan ffermwyr)
- gweithgynhyrchwyr bwyd sy'n gwerthu deunydd sy'n mynd i mewn i'r gadwyn fwyd anifeiliaid
- cludwyr ffordd a chwmnïau cludo sy'n cludo bwyd anifeiliaid
- da byw a rhai ffermwyr âr
- masnachwyr nad ydynt yn cadw stoc ar eu safle (broceriaid)

Mae rhai eithriadau, gan gynnwys:

- pobl sy'n cynhyrchu neu storio bwyd anifeiliaid
- pobl sy'n bwydo anifeiliaid i'w bwyta eu hunain
- pobl sydd ag anifeiliaid nad ydynt at ddiben cynhyrchu bwyd
- cynhyrchydd yn cyflenwi "symiau bach" o gynhyrchion cynradd yn lleol yn uniongyrchol i ffermydd lleol
- manwerthu bwyd anifeiliaid anwes

Mae gennym ni ganllawiau ar wahanol weithgareddau a'u codau perthnasol. Rydym ni hefyd yn darparu canllawiau penodol ar gyfer busnesau bwyd a diod sy'n cyflenwi i'r gadwyn bwyd anifeiliaid

England

View EU Feed Hygiene Regulation (183/2005) - Approval and Registration activities as PDF (123.47 KB)

Rheoliad 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a defnyddio bwyd anifeiliaid

Mae Regulation 767/2009 yn nodi'r gofynion ar gyfer marchnata, labelu a chyfansoddiad bwyd anifeiliaid, ac yn cynnwys darpariaethau sydd â'r bwriad o ddiogelu iechyd pobl ac anifeiliaid.

Mae'n darparu y gellir rhoi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio dim ond os yw'n ddiogel ac os nad yw'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd neu ar les anifeiliaid.

Mae'r rheoliad hefyd yn darparu Catalog o Ddeunyddiau Bwyd Anifeiliaid a Chodau Ymarfer ar gyfer labelu. Mae'r Catalog o Ddeunyddiau Bwyd Anifeiliaid wedi'i gyhoeddi fel Rheoliad 68/2013 .

Rheoliad 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid

Mae Rheoliad 1831/2003 yn nodi gweithdrefnau wedi'u cysoni ar gyfer awdurdodi a labelu ychwanegion bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys:

- fitaminau
- cyffeithyddion
- rhwymwyr ac asiantau gelio
- lliwiau
- gwrthocsidyddion
- sefydlogwyr
- elfennau hybrin
- ensymau
- micro-organebau – mae rhai o'r rhain yn destun lefelau uchaf a ganiateir, yn targedu rhywogaethau penodol, ac yn destun amodau defnydd eraill

Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn gyfrifol am asesu diogelwch ac effeithiolrwydd

ychwanegion newydd. Adran Maeth Anifeiliaid y Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (SCoPAFF) sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid awdurdodi ychwanegyn bwyd ar ôl ei asesu.

Mae'r Rheoliad hefyd yn nodi'r wybodaeth sy'n rhaid ei harddangos ar labeli ychwanegion a rhag-gymysgeddau. Mae'n cynnwys ychwanegion sootechnegol, ac mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yn gyfrifol am rai o'r categorïau hyn.

Yn ogystal, mae Rheoliad 429/2008 yn gosod rheolau manwl ar gyflwyno Rheoliad 1831/2003 mewn perthynas â pharatoi a chyflwyno ceisiadau ynghyd ag asesu ac awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid.

Rheoliad 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig

Mae Rheoliad 1829/2003 yn sefydlu gweithdrefn ganolog ar gyfer asesu'n wyddonol ac awdurdodi organebau a addaswyd yn enetig (GMO) a bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM). Mae'r gweithdrefnau asesu yn cwmpasu'r GMO ei hun a'r bwyd a'r bwyd anifeiliaid sy'n deillio ohono.

Mae'r Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i labelu bob bwyd a bwyd anifeiliaid GM a bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys GMOs neu a gynhyrchir o gynhwysion a gynhyrchwyd o GMOs neu sy'n eu cynnwys, p'un a oes deunydd GM yn bresennol neu'n absennol yn y cynnyrch terfynol. Ceir trothwy o 0.9% ar gyfer presenoldeb GMOs ac islaw'r trothwy hwnnw nid oes angen eu labelu os na ellir osgoi'r presenoldeb hwn yn dechnegol.

Rheoliad 882/2004

Mae Regulation 882/2004 yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a phwerau galluogi ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol, ac mae'n manylu ar y dull y dylai awdurdodau gorfodi'r Aelod-wladwriaethau ei ddefnyddio wrth wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a rheolau'r UE ar iechyd a lles anifeiliaid.

Rheoliad 152/2009

Mae atodidau Regulation 152/2009 yn nodi'r gweithdrefnau manwl y dylid eu dilyn wrth ddadansoddi bwyd anifeiliaid am ystod o sylweddau penodol.

Prif Gyfarwyddebau'r EU

Caiff y cyfarwyddebau hyn eu trosi i gyfraith y Deyrnas Unedig trwy ddeddfwriaeth ddomestig:

- Cyfarwyddeb 2002/32/EC ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid
- Cyfarwyddeb 2008/38/EC sy'n sefydlu rhestr o ddibenion bwriedig ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddefnydd maethol neilltuol

Deddfwriaeth genedlaethol

Mae rheoliadau deddfwriaeth genedlaethol yn berthnasol yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys pwer gweithredu ar gyfer deddfwriaeth yr UW. Mae deddfwriaeth gyfatebol ar wahân yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Lloegr) 2015

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi neu gyflwyno Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE ar ddiogelwch bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid GM, ychwanegion bwyd, marchnata a

defnyddio bwyd anifeiliaid, sylweddau annymunol (halogion) mewn bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliad at ddibenion maethol penodol.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc., a Gorfodi) (Lloegr) 2015

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad 183/2005 a Rheoliad 152/2009 ac yn gwneud Rheoliad 882/2004 yn weithredol.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Lloegr) 2010 (Offeryn Statudol 2010 Rhif 2503) a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi a Sylweddau Annymunol Penodol (Lloegr) 2010 (Offeryn Statudol 2010 Rhif 2280)

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer swyddogion gorfodi awdurdodau lleol sy'n gorfodi a gweinyddu Rheoliadau Ewropeaidd, ond maent wedi'u diwygio/diddymu i raddau helaeth gan reoliadau 2015 a ddisgrifir uchod.

Codau Ymarfer y Diwydiant

Cafodd sectorau'r diwydiant wahoddiad i greu canllawiau ymarferol i'r diwydiant, defnyddwyr ac awdurdodau ar sut i weithredu rheolau'r UE.

Gwybodaeth bellach

Mae Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn gyfrifol am fesurau ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid a rheoli enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yn gyfrifol am ddeddfwriaeth meddyginiaethau milfeddygol.

Rhagor o wybodaeth am ddechrau busnes bwyd anifeiliaid.